Grŵp Trawsbleidiol ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
Cross Party Group on Renewable & Low Carbon Energy

CADNO COMMUNICATIONS LTD

renewableUK CYMRU

**Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

12.15 - 1.15yp, Dydd Mawrth 28th Chwefror2023

Cyfarfod ar-lein

Cofnodion

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

### Aelodau'r Senedd

Delyth Jewell AS (Cadeirydd)
Jane Dodds AS
Janet Finch-Saunders AS
Mike Hedges AS
Jenny Rathbone AS
Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd (Siaradwraig Wadd)

### Yn Bresennol

Alice Jones
Amy Ravitz-Williams
Andrew Crossman
Andy Fewings
Andy Regan
Angharad Davies
Antony Jones
Ben Coates
Cathryn Tracey
Cathy Owens
Chris Williams
Charlotte Gibson
Chloe Corbyn
Chris Jackson
Clare Dance
Clare Jones
David Jones
Eleri Davies
Emma Wakeham
Ffion Davies
Ffion Wright
Gwenllian Elias
Henry Dixon
Huw Lewis
Ifer Gwyn
Ioan Dobbin
Jack Pugsley
Jennifer Pride
Jessica Hooper
Jocelyn Donald
Jon Fox
Lara Stance
Lisa Christie
Lorna Scurlock
Louis Kirkup
Manon Kynaston
Mark Sandles
Mary Thorogood
Meilyr Ceredig
Mike Hedges MS
Neil Lewis
Oliver Sandles
R Johnson
Rachel Kennedy
Ralph Windeatt
Reece Emmitt
Rhiannon Phillips
Richard Dibley
Robert Chapman
Robert Jervis Gibbons
Ron Loveland
Rosemary
Ruth Lovell
Ryland Doyle
Sara Powell Davies
Sarah Jones
Seumas Skinner
Simon Morgan
Steve Brooks
Susan Falch-Lovesey
Tathan Harding Lloyd
Tessa Blazey
Thomas Yeo
Tony Cooke

### Eitem 1 yr Agenda: Croeso a chyflwyniadau

- Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol.
- Cyflwynodd Manon Kynaston a Jess Hooper eu hunain fel Cyd-Gyfarwyddwyr RenewableUK Cymru.

## Eitem 2 yr Agenda: CCB

- Ail-etholwyd Delyth Jewell AS yn Gadeirydd.
- Ail-etholwyd Jane Dodds AS a Huw Irranca-Davies AS yn Is-gadeiryddion.
- Ail-etholwyd Cadno Communications yn Ysgrifenyddiaeth.
- Bydd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Grŵp Trawsbleidiol o fewn chwe wythnos i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## Eitem3 yr Agenda: Y Gweinidog Newid Hinsawdd (12.30 – 13.00)

Aeth y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, i'r afael â chwestiynau a ofynnwyd gan yr aelodau cyn y cyfarfod:

*C. Mae'r gadwyn gyflenwi a'r cyfleoedd sgiliau y gellid eu darparu'n lleol o ganlyniad i brosiectau gwynt alltraeth arnofiol y Môr Celtaidd yn y dyfodol yn sylweddol. O'r sgyrsiau y mae'r Gweinidog wedi'u cael hyd yn hyn ag Ystâd y Goron, pa mor hyderus yw hi bod y broses Cytundeb Prydlesu ar gyfer y 4GW cychwynnol ac ar gyfer rowndiau prydlesu dilynol, yn rhoi'r pwyslais cywir ar y gadwyn gyflenwi a sgiliau i gyflawni canlyniad lle mae Cymru'n teimlo manteision economaidd gwynt alltraeth arnofiol?*

Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

• Y bu llawer o ymgysylltu ag Ystâd y Goron, a bod y berthynas yn un gynhyrchiol.

• Siomedig gweld mai dim ond pasio/methu sydd ar gynlluniau datblygu cadwyn gyflenwi fel rhan o'r broses dendro. Yn awyddus i weld mwy o fanylion am ofynion, a mecanwaith i sicrhau bod datblygwyr yn cyflawni eu hymrwymiadau.

• Rhaid i'r Contract ar gyfer Gwahaniaeth hefyd annog datblygiad cadwyn gyflenwi leol.

• O ran porthladdoedd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gyda buddsoddiad, gan hwyluso sgyrsiau gydag Ystâd y Goron a Llywodraeth y DU.

• Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Chlwstwr y Môr Celtaidd i roi cadwyni cyflenwi ar waith.

• Cydnabod pryderon datblygwyr ynghylch parodrwydd y grid, ac mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dylanwad sydd ganddi i helpu i symud y mater yn ei flaen, ond yn y pen draw, Llywodraeth y DU sydd â'r pwerau.

*C. Sut gallwn ni wella cydweithrediad rhwng yr holl randdeiliaid perthnasol i wneud y gorau o gyfleoedd cadwyn gyflenwi 2 er budd Cymru? Sut gallwn ni wella cydweithrediad rhwng yr holl randdeiliaid perthnasol i wneud y gorau o swyddi, sgiliau a chyfleoedd hyfforddi er budd Cymru?*

Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

• Mae Llywodraeth Cymru yn rhan o Gyngor y Diwydiant Gwynt ar y Môr a'r Catapwlt Ynni Adnewyddadwy ar y Môr, sy'n dod â meysydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr at ei gilydd ar gyfer cyflawni.

• Mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU yn datblygu strategaeth ddiwydiannol effeithiol.

*C. Pa rôl sydd gan borthladdoedd i gyflawni uchelgeisiau datgarboneiddio Cymru ym marn y Gweinidog? Pa mor bwysig y mae'r Gweinidog yn meddwl y bydd porthladdoedd Cymru yn y cyfle i wynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd? Pa rôl y mae'r Gweinidog yn meddwl y bydd porthladd(au) rhydd yn ei chwarae wrth wneud y gorau o uchelgeisiau datgarboneiddio Cymru?*

Gwnaeth y Gweinidog y pwynt a ganlyn:

• Bydd disgwyl i borthladd(oedd) rhydd yng Nghymru gadw at Egwyddorion Gwaith Teg a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru. Gan fod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ar borthladdoedd rhydd, ni wnaeth y Gweinidog unrhyw sylw pellach.

*C. A all y Gweinidog ddisgrifio'r cynlluniau sydd ar y gweill i ddefnyddio Hydrogen gwyrdd i ddatgarboneiddio coridor diwydiannol de Cymru. Faint o Hydrogen sydd ei angen arnom, beth yw ffynhonnell fwyaf tebygol yr hydrogen, pryd y bydd yn cyrraedd a faint fydd yn ei gostio?*

Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

• Mae hydrogen gwyrdd yn gyfle mawr sy'n codi o'r Môr Celtaidd.

• Mae ffafriaeth amlwg i hydrogen gwyrdd sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy.

• Gweithio gyda Chlwstwr Diwydiannol De Cymru, rhanddeiliaid trafnidiaeth, a phrifysgolion i asesu beth sydd ei angen a sut olwg fydd ar y gadwyn gyflenwi.

• Mae prosiect grid ynni'r dyfodol yn cymryd agwedd gyfannol ar draws y rhwydweithiau trydan a nwy. Mae Menter Busnes Bach Hydrogen, Ymchwil ac Arloesedd ar gyfer Datgarboneiddio wedi'i hanelu at gefnogi un neu fwy o ddeg amcan ein Hadroddiad Llwybr Hydrogen Cymru.

• Mae polisi rheoleiddio ar hydrogen yn fater a gadwyd yn ôl.

*C. Gall safonau cenedlaethol a rhyngwladol gefnogi trosglwyddiad Llywodraeth Cymru i sero net. Pa ystyriaeth a roddwyd i gyfranogiad Llywodraeth Cymru yn natblygiad safonau a/neu eu defnydd i gyflawni nodau sero net Cymru?*

Gwnaeth y Gweinidog y pwynt a ganlyn:

• Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar gynllun cyflawni ar gyfer y Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf, a gwahoddir y rhai sy'n dymuno cyfrannu i gysylltu â thîm ynni Llywodraeth Cymru.

*C. Mae'r rhagfynegiadau tymheredd byd-eang diweddaraf yn peri pryder mawr a byddant yn arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau'r môr ac ymchwyddiadau storm. A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r manteision sylweddol y bydd prosiectau amrediad llanw, megis Morlyn Llanw Gogledd Cymru, yn eu sicrhau wrth liniaru'r heriau a fydd yn wynebu ein cymunedau arfordirol a'n busnesau?*

Gwnaeth y Gweinidog y pwynt a ganlyn:

• Mae Prif Weinidog Cymru i fod i wneud cyhoeddiad yng Nghynhadledd Ynni Morol Cymru ar 22 Mawrth yn Abertawe.

**Pwyntiau eraill a wnaed yn ystod y drafodaeth:**

- Gallai môr-lynnoedd llanw hefyd gyfrannu at gynhyrchu hydrogen gwyrdd.
- Mae system fwy lleol, hyblyg, clyfrach a charbon isel yn rhan hanfodol o ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru.
- Galw am ymyrraeth ariannol gan Lywodraeth y DU i gefnogi system ynni sero net Cymru.
- Mae gan Gymru stoc dai hen iawn ac mae effeithlonrwydd ynni yn her. Y ffordd orau a chyflymaf o ddatgarboneiddio cartrefi yw datgarboneiddio'r grid. Bydd rhaglenni olynol i NEST ac Arbed yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae lle i gronfeydd budd cymunedol datblygwyr dalu am well effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi lleol.
- Mae Llywodraeth yr Alban yn treialu boeleri hydrogen ar gyfer gwresogi yn y gymuned, gyda hydrogen gwyrdd yn cael ei greu o dyrbin gwynt lleol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio'r mentrau hyn.
- Un o'r heriau mwyaf yw'r grid ar gyfer ynni ar y tir ac ar y môr.
- Mynegodd y Gweinidog gyffro ynghylch cynlluniau ar gyfer datblygwr ynni gwladol newydd i ddatblygu prosiectau adnewyddadwy ar dir llywodraeth Cymru a'r ystâd goetiroedd.

- Mae budd bioamrywiaeth yn fantais allweddol a all ddod yn sgil prosiectau ynni adnewyddadwy. Mae Vattenfall wedi dangos hyn gydag enillion bioamrywiaeth ym Mhen y Cymoedd.

## Eitem 4 yr Agenda: Blaenraglen waith

Bydd pôl piniwn yn cael ei gynnal er mwyn i aelodau bleidleisio ar flaenoriaethau ar gyfer cynllun blaenraglen waith y grŵp.

## Eitem 5 yr Agenda: Unrhyw fater arall

Dim.

## Eitem 6 yr Agenda: Dyddiad y cyfarfod nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf am 12:30 dydd Mawrth 27 Mehefin 2023. Mae hyn yn ystod Wythnos Gwynt sy'n rhedeg o 26 i 30 Mehefin. Bydd y cyfarfod yn un hybrid, a gynhelir yn y Senedd a thrwy Zoom.